Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Morfa Rhianedd**
**Ffordd Cwm**
**Llandudno**
**Conwy**
**LL30 1EG**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Morfa Rhianedd yn ysgol benodedig Gymraeg sydd wedi'i lleoli yn nhref Llandudno yn Sir Conwy.  Mae 123 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 43 o blant meithrin rhan-amser.  Maent wedi'u trefnu'n bedwar dosbarth gyda thri ohonynt yn rhai oed cymysg.  Mae dosbarth adnoddedig y sir sydd wedi ei leoli yn yr ysgol yn darparu cefnogaeth arbenigol i ddisgyblion yr ardal sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae gan 47% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd llawer yn uwch na'r ganran genedlaethol.  Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig.  Mae 37% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, sydd yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Morfa Rhianedd yn 2014-2015 yw £5,461.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £15,278 a'r lleiafswm yw £3,190.  Mae Ysgol Morfa Rhianedd yn y 14eg safle o'r 59 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2013.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod Medi 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Safonau llythrennedd a rhifedd yn dda trwy'r ysgol
- Bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- Gan pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach
- Ymddygiad yn dda gyda disgyblion yn ystyriol o deimladau rhai eraill o'u cwmpas
- Cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn gyson uchel
- Profiadau dysgu yn diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus
- Yr ysgol yn gymuned hapus, gartrefol a chroesawgar
- Yr ysgol yn darparu amgylchedd cynhwysol sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl

Fodd bynnag:

- Mewn ychydig o wersi, nid yw'r tasgau yn addas ar gyfer yr ystod lawn o ddisgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Gweledigaeth glir gan y pennaeth ar gyfer datblygu a phennu cyfeiriad strategol pendant i waith yr ysgol
- Gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am berfformiad ac anghenion yr ysgol
- Trefniadau hunanarfarnu trwyadl ar gyfer monitro ac arfarnu safonau a darpariaeth
- Athrawon yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol
- Ystod o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth
- Yr ysgol wedi ei staffio'n briodol a bod ganddi gyflenwad priodol o adnoddau
- O ystyried deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ansawdd yr addysgu yn gyson dda ym mhob dosbarth

A2 Sirhau bod tasgau wedi'u cynllunio'n briodol ar gyfer cwrdd ag anghenion penodol yr holl ystod o ddisgyblion

A3 Sicrhau bod athrawon yn pennu targedau personol ar gyfer rhifedd, yn ogystal â llythrennedd, i ddisgybion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

O ystyried eu man cychwyn yn yr ysgol, yn arbennig yn eu gallu i siarad Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn dangos diddordeb yn y eu tasgau ac yn gweithio'n galed mewn gwersi gan gydweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Mae llawer ohonynt yn canolbwyntio'n dda ac yn cyfrannu'n frwdfrydig yn ystod sesiynau. Mae disgyblion o bob oedran yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn rhwydd ac yn ei gymhwyso yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd newydd. Wrth fynd i'r afael â thasgau datrys problemau, fel creu cylched trydanol yn y Cyfnod Sylfaen neu fosaigau cymhleth yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau meddwl.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu gallu cyfathrebu Cymraeg ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa pan fyddant yn sgwrsio gydag oedolion neu'n trafod eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn adeiladu geiriau yn systematig gyda'r rhai mwy galluog yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon yn Gymraeg a Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o'r disgyblion yn cynhyrchu pytiau byrion o ysgrifennu i ystod o ddibenion, a chyda cywirdeb cynyddol. Gyda chymorth, mae ychydig o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ac yn greadigol wrth gofnodi eu profiadau dysgu neu ysgrifennu stori; er enghraifft, wrth iddynt ysgrifennu stori 'Jac a'r Goeden Ffa' yn eu geiriau eu hunain.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae llawer yn ddarllenwyr hyderus, yn arbennig yn Saesneg, ac erbyn diwedd y cyfnod allweddol maent yn casglu ac yn cofnodi gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau fel llyfrau a gwefannau. Erbyn Blwyddyn 5, mae llawer o'r disgyblion yn medru defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg, yn effeithiol. Maent yn ysgrifennu'n hyderus i nifer o bwrpasau, er enghraifft, wrth gofnodi gwybodaeth am saith rhyfeddod y byd neu wrth ddisgrifio cymeriad Barti Ddu. Gan amlaf, maent yn mynegi eu syniadau yn glir er bod rhai gwallau mewn cystrawen a gramadeg yn amharu ar ansawdd eu gwaith. Ar draws y cyfnod allweddol, mae cyflwyniad gwaith ynghyd ag ansawdd llawysgrifen disgyblion, o safon dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg ac wrth ymwneud â gweithgareddau ymarferol yn yr ardaloedd dysgu. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau; er enghraifft, wrth gyfrif swm o arian i £1 a rhoi newid. Maent yn dehongli gwybodaeth wedi'i chyflwyno mewn graffiau neu ddiagramau gwahanol gyda chywirdeb da gan ddefnyddio geirfa fathemategol gywir wrth drafod eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn mynd i'r afael â gweithgareddau ymarferol yn hyderus ac yn systematig; er enghraifft, wrth gadw cofnod o dymheredd dŵr wrth iddo oeri. Erbyn Blwyddyn 5, mae'r mwyafrif yn defnyddio ffeithiau rhif yn briodol i wneud cyfrifiadau yn y pen. Mae bron pob disgybl yn ymdrin â rhifau saith digid a chanrannau'n hyderus ac yn defnyddio ystod addas o strategaethau ar gyfer gwirio eu hatebion. Wrth ymwneud â gwaith ymarferol mewn mathemateg, er enghraifft cadw cyfrifon o werthiant mewn siop, mae'r disgyblion hyn yn casglu data o nifer o ffynonellau ac yn ei gyflwyno'n fedrus ar ffurf tablau, graffiau a thaenlenni. Mae gallu'r rhan fwyaf yn y cyfnod allweddol i gymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer datrys problemau ymarferol, yn dda.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg, roedd cyfran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd deilliant 5 yn y tair blynedd ddiwethaf, gan amlaf, yn yr 50% is mewn llythrennedd a mathemateg. Gydag eithriadau prin, roedd y gyfran a gyflawnodd deilliant 6 yn y 50% is mewn llythrennedd a'r 25% isaf mewn mathemateg.

Yn ystod dwy o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar lefel 4 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn yr 50% uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd perfformiad yn ystod y blynyddoedd eraill ar lefel 4 gan amlaf yn y 25% isaf yn y pedwar pwnc.

Mewn o leiaf ddwy o'r pedair blynedd, roedd perfformiad cyfnod allweddol 2 ar lefel 5 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg. Roedd perfformiad Saesneg, gan amlaf, yn y 25% isaf o ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae merched a bechgyn yn cyflawni cystal â'i gilydd. Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad y rheini sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim a gweddill y disgyblion.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gael bwyd a diod iachus ac i ddatblygu ffitrwydd.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn mewn modd cyfrifol ac yn ystyriol o deimladau a dyheadau disgyblion eraill o'u cwmpas. Nodwedd gref o'r ysgol yw'r ffordd mae disgyblion o bob oed yn cydweithio'n gyfeillgar mewn grwpiau mawr a bach ac yn arddangos parch a chonsyrn tuag at ei gilydd. Maent yn cyd-dynnu'n rhwydd ag athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol ac yn barod iawn i helpu.

Mae'r disgyblion hŷn yn ysgwyddo cyfrifoldebau, fel helpu yn ystod amser cinio ac ymgymryd â rôl 'Mêts Morfa,'a 'Cyfeillion Cŵl,' yn aeddfed iawn. Mae'r cyngor ysgol a'r grŵp eco, sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnwys cynrychiolwyr o Flynyddoedd 1-6, wedi cael effaith gadarnhaol ar amrywiol agweddau, gan gynnwys iechyd, amgylchedd yr ysgol ac adnoddau i ddisgyblion. Maent yn ymateb yn frwdfrydig iawn i'r cyfleoedd a gânt i godi arian at achosion da. Trwy strategaeth 'taith y tymor', caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu eu syniadau at gynnwys thema gyfredol eu dosbarth. Mae mabwysiadu strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi dechrau gwella dealltwriaeth disgyblion o gryfderau eu gwaith a'r hyn y gallent ei wneud i'w wella.

Mae'r cyfleoedd rheolaidd a gaiff disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau cymdeithasol. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y bu disgyblion yr ysgol yn cydweithio gyda chwmni adeiladu lleol er mwyn creu posteri yn rhybuddio'r cyhoedd am beryglon y safle tai.

Mae cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel, ac wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Gydag eithriadau prin, mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ar gyfer cychwyn sesiynau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae cynllunio trylwyr yr athrawon a chymorthyddion yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn ymdrin yn llawn â gofynion y Cyfnod Sylfaen ynghyd â'r Cwricwlwm Cenedlaethol, addysg grefyddol â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae'r ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, ymweliadau amrywiol a chyfraniadau gan y gymuned ehangach yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd y profiadau dysgu. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad gan fardd plant Cymru ac ymweliadau preswyl i Gaerdydd.

Mae'r amrediad eang o weithgareddau trawsgwricwlaidd a ddarperir yn sicrhau bod cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd ac ansawdd dysgu disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth eang ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd-destunau yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd ysgogol a gaiff disgyblion i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru yn cryfhau eu hunaniaeth Gymreig. Trwy weithgareddau'r Urdd, darperir cyfleoedd diddorol ac ysgogol i ddisgyblion ymarfer a datblygu'r Gymraeg y tu allan i'w gwersi. Mae hyn yn cyfrannu at fwynhad y disgyblion wrth ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd.

Caiff addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy ei hyrwyddo'n effeithiol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae arferion dydd-i-ddydd yr ysgol fel cofnodi a monitro gwastraff, ail-gylchu deunyddiau ac arbed ynni, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u cyfrifoldeb tuag at warchod yr amgylchedd.

Mae profiadau dysgu'r disgyblion yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at godi eu hymwybyddiaeth o'u rôl fel dinasyddion fyd-eang. Yn ystod yr wythnos ryngwladol a gynhelir yn flynyddol, bydd ymwelwyr o ysgolion Ewropeaidd yn ymweld â'r ysgol a bydd disgyblion hwythau hefyd yn ymweld ag ysgolion yn Ewrop.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn fodelau iaith cadarn i ddisgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu cyfleoedd ysgogol ar gyfer datblygu

medrau disgyblion yn yr iaith Gymraeg. Mae'r sesiynau, sydd wedi eu cynllunio'n ofalus ac sy'n cynnwys amcanion clir ar gyfer y profiadau dysgu, yn galluogi'r rhan fwyaf o'r disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau a'u dealltwriaeth. Mae bron pob gwers wedi ei rheoli'n effeithiol gydag athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o wahanol ddulliau addysgu, gan gynnwys gwaith grŵp neu drefniant dosbarth cyfan.

Ble mae diffygion yn yr addysgu, nid yw'r tasgau a ddarperir wedi'u cynllunio'n briodol ar gyfer bodloni anghenion yr holl ystod o ddisgyblion. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion mewn ychydig o ddosbarthiadau yn colli diddordeb yn y dasg dan sylw ac yn gwneud cynnydd cyfyng yn eu medrau dysgu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth asesu ar gyfer olrhain cynnydd pob disgybl trwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i drefnu rhaglenni ymyrraeth yn ôl yr angen.

Mae gwaith disgyblion o bob oedran yn cael ei farcio'n rheolaidd. Ar ei orau, mae adborth llafar ac ysgrifenedig athrawon yn rhoi arweiniad priodol i ddisgyblion ynghylch yr hyn y maent wedi'i gyflawni a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw ansawdd sylwadau athrawon yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eu dyddiau cynnar o ran datblygiad. Er bod yr arfer o bennu targedau unigol yn arwain at gynnydd addas mewn dysgu a llythrennedd disgyblion, ychydig iawn o dargedau a bennir ar gyfer codi eu safonau rhifedd.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cyflwyno gwybodaeth fuddiol iddynt am ddatblygiad a chynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gartrefol a chroesawgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i iechyd a lles disgyblion. Mae'r polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr sy'n eu lle yn hyrwyddo'r gwerthoedd hyn ac yn cefnogi'r dysgu'n effeithiol. O ganlyniad, mae amgylchedd yr ysgol yn ddiogel a chynhwysol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r profiadau dysgu eang oddi fewn i'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ynghyd â'r sesiynau addoli ar y cyd, yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Mae ansawdd y gynhaliaeth a'r gofal i ddisgyblion yn dda. Enghraifft gadarn o hyn yw 'Clwb Clebran' sy'n rhoi sylw penodol i ddisgyblion bregus. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau arbenigol fel yr heddlu a chynhwysiant cymdeithasol, ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at iechyd a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ac ymarferol i hybu presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn galluogi'r disgyblion hyn i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm ac i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Gwna'r staff ddefnydd effeithiol o ystod o asesiadau er mwyn adnabod anghenion dysgu disgyblion yn gynnar a threfnu cynhaliaeth a rhaglenni unigol pwrpasol ar eu cyfer. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd priodol ac, mewn ymgynghoriad â'r rhieni a disgyblion, yn cael eu hadolygu'n dymhorol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o gymorthyddion ac asiantaethau allanol i ymateb i ofynion penodol y disgyblion ac i hybu datblygiad parhaus.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn creu amgylchedd croesawgar a hapus sydd yn cyfrannu'n dda at gefnogi dysgu ac addysgu. Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar sydd yn dathlu amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi pob dysgwr. Mae'n sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac yn cryfhau hunanhyder unigolion.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau pwrpasol sydd o ansawdd da yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cynnwys offer cyfrifiadurol sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol gan ddisgyblion ac athrawon i gefnogi dysgu ac addysgu.

Mae arddangosfeydd safonol yr ysgol yn rhoi pwyslais clir ar ddathlu cyflawniadau a llwyddiant y disgyblion ac yn hybu dysgu symbylus. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith celf y disgyblion sy'n cael lle amlwg yng nghynteddau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd allanol i gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu ac mae hyn yn cynnwys cyfleusterau chwarae, cwrs antur ac ardaloedd gwyrdd.

Mae'r adeiladau o ansawdd da, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn effeithiol. Mae'r amgylchedd ffisegol a'r defnydd da o adnoddau yn gweddu'n dda i anghenion disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth ar gyfer datblygu a phennu cyfeiriad strategol pendant i waith yr ysgol. Mewn amser byr, mae wedi llwyddo i rannu ei weledigaeth yn llwyddiannus gyda'r staff, y rhieni a'r llywodraethwyr. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel ac mae wedi sefydlu gweithdrefnau pwrpasol a chlir i'r holl staff ar gyfer codi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Mae'r nodau datblygu yn cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â chodi safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau cyfredol sy'n nodi eu cyfrifoldebau yn glir. Mae cydlynwyr pynciau'n cyfrannu'n dda i ddatblygiad yr ysgol trwy greu adroddiadau arfarnol ar eu pynciau. Mae'r rhain yn mynd i'r afael â thanberfformiad ac yn cael eu defnyddio'n bwrpasol ar gyfer gosod amcanion a thargedau sy'n flaenoriaethau strategol. Caiff cyfarfodydd rheolaidd staff a llywodraethwyr, sydd yn rhoi sylw clir i godi safonau, eu defnyddio'n effeithiol i drafod blaenoriaethau'r ysgol ynghyd â chynnydd disgyblion

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau manwl a chlir ar ffurf cylch lythyr gan y pennaeth yn rheolaidd. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am berfformiad disgyblion ynghyd ag arfarniad o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu blaenoriaethau'r cynllun gwella cyfredol. Mae diwyg gafaelgar yr adroddiadau hyn yn galluogi llywodraethwyr i gael darlun cliriach o berfformiad yr ysgol, ac yn arbennig sut mae'n cymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae hyn yn grymuso eu rôl fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol ac yn eu galluogi i gyfrannu'n fwy effeithiol i brosesau cynllunio strategol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn gadarn ac yn rhan greiddiol o waith yr ysgol. Mae prosesau parhaus, clir a phwrpasol gan yr ysgol i fonitro ac arfarnu safonau a deilliannau'r disgyblion, yn ogystal â'r ddarpariaeth. Mae'r dadansoddiad o ddata yn fanwl ac mae adrodd arno yn rhan annatod o'r broses. Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn casglu eu tystiolaeth. Gwnânt hyn yn effeithiol trwy arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion, a gwrando ar safbwyntiau disgyblion a rhieni. Trwy drafod a gwerthuso mewn cyfarfodydd athrawon, cynhelir arfarniad cyson o sut mae blaenoriaethau'n cael eu gweithredu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl wedi'i seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol ac yn rhoi darlun gwrthrychol a chywir o sefyllfa gyfredol yr ysgol ynghylch ansawdd dysgu ac addysgu a safonau.

Ceir cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau a gynhwysir yn y cynllun gwella. Mae prif flaenoriaethau'r cynllun, sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau cyrhaeddiad grwpiau penodol o ddisgyblion, yn cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol. Mae'n nodi'r aelodau staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni, mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant, ac yn pennu terfynau amser penodol ar gyfer cwblhau'r tasgau. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad digon meintiol yn y cynllun ynghylch y nifer penodol o ddisgyblion sydd i gyrraedd gwahanol lefelau.

Mae arweinwyr a staff yn monitro cynnydd ac effaith y datblygiadau yn gyson mewn cyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff llywodraethol ac, yn ôl yr angen, yn pennu blaenoriaethau pellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae partneriaeth gynhyrchiol rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned leol. Enghraifft dda o hyn yw'r prosiect rhandiroedd lle caiff gofal dros yr ardaloedd hyn, sydd ar dir yr ysgol, ei rannu rhwng yr ysgol yn ystod tymhorau'r ysgol a'r rhieni yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r cysylltiadau gweithredol sydd rhwng yr ysgol â chwmnïau lleol, fel cydweithfa fwyd, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn ymestyn eu hymwybyddiaeth o fyd gwaith a sut i dyfu bwyd, yn sylweddol.

Mae'r bartneriaeth gref a'r cydweithio agos sydd rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin, sydd wedi ei leoli ar yr un safle, yn hwyluso'r trefniadau trosglwyddo wrth i'r plant

gael eu derbyn i'r ysgol. Mae'r trefniadau pontio effeithiol a chydweithio llwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd lleol yn sicrhau bod dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cyfnod nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion tebyg drwy weithgareddau safoni a chymedroli asesiadau athrawon. Mae'r cydweithio hwn yn cynorthwyo athrawon yn dda i gynllunio ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r disgwyliadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae partneriaeth dda gydag asiantaethau allanol. Mae swyddog cyswllt yr heddlu yn ymweld â'r ysgol yn dymhorol i gynnal sesiynau ar faterion yn cynnwys cadw'n ddiogel, seibr-fwlio technolegol a pheryglon yn gysylltiedig â chyffuriau. Mae'r ymweliadau hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol at godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u diogelwch personol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae cynorthwywyr yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn dda. Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n dda drwy ddefnyddio arbenigedd creadigol athrawes i ddatblygu medrau creadigol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw teilwng i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac mae prosesau rheoli perfformiad i'r holl staff yn cefnogi hyn yn briodol. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion, yn enwedig i wella safonau darllen trwy'r prosiect sy'n canolbwyntio ar 'ddarllen o dan arweiniad'.

Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn rheoli gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau nad oes gorwariant a bod swm y cyllid wrth gefn yn rhesymol. Maent yn sicrhau bod cyflenwad priodol o adnoddau ar gael, sy'n ymateb i anghenion y disgyblion. Maent yn neilltuo swm o arian i roi cymhorthdal ar gyfer gwersi offerynnau cerdd i ddisgyblion sy'n dymuno hynny. Maent yn gwneud penderfyniadau cyllidebol yn ôl anghenion a blaenoriaethau'r ysgol yn briodol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r grant amddifadedd i godi safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622063 - Ysgol Morfa Rhianedd**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 103 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 36.4 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 6 | 9 | 21 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 66.7 | 47.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 9 | 21 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 77.8 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 0.0 | 9.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 9 | 21 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 66.7 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 9 | 21 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 77.8 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 22.2 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6622063 - Ysgol Morfa Rhianedd**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 103 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 36.4 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 11 | 7 | 20 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 54.5 | 85.7 | 60.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 7 | 20 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 63.6 | 85.7 | 65.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 9.1 | 0.0 | 15.0 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 7 | 20 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 63.6 | 71.4 | 65.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 0.0 | 5.0 | 14.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 7 | 20 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 63.6 | 85.7 | 70.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 27.3 | 14.3 | 30.0 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 7 | 20 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 54.5 | 85.7 | 75.0 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 9.1 | 0.0 | 30.0 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 39 | 38<br>97% | 1<br>3% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 39 | 37<br>95% | 2<br>5% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 39 | 37<br>95% | 2<br>5% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 39 | 38<br>97% | 1<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 39 | 39<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 38 | 35<br>92% | 3<br>8% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 39 | 39<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 39 | 38<br>97% | 1<br>3% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 37 | 33<br>89% | 4<br>11% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 39 | 39<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 38 | 32<br>84% | 6<br>16% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 38 | 33<br>87% | 5<br>13% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 13<br>87% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 13<br>87% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 13<br>87% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 15 | 6<br>40% | 9<br>60% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 14 | 10<br>71% | 4<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 14 | 12<br>86% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 14 | 12<br>86% | 2<br>14% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 10<br>67% | 5<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 13 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 15 | 8 | 6 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 53% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 13 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 87% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 10 | 1 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 71% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 11 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 73% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 14 | 10 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr William Edward Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Buddug Mai Bates | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Wyn Davies | Arolygydd Lleyg |
| Miss Angharad John | Arolygydd Cymheiriaid |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.